



Cynllun Cynorthwyo Gwaed  
Heintiedig Cymru  
Wales Infected Blood  
Support Scheme

## CANLLAWIAU AR GYFER FFURFLEN C

### CAIS I YMUNO Â'R CYNLLUN TALU - CEISIADAU HIV NEWYDD

#### CANLLAWIAU AR GYFER YMGEISWYR

Mae'r ffurflen hon ar gyfer yr ymgeiswyr hynny nad ydynt erioed wedi ymuno â Chynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru, neu ag unrhyw un o gynlluniau'r DU (e.e. Cronfa Skipton) mewn perthynas â thaliadau HIV, ac a gafodd:

- Haint HIV yn sgil triniaeth gyda gwaed, cynhyrchion gwaed neu feinwe'r GIG  
Neu
- Haint HIV ar ôl i'r firws gael ei drosglwyddo iddynt o rywun arall, ac mae'r un a drosglwyddodd yr haint wedi eu heintio gan HIV yn sgil triniaeth gyda gwaed, cynhyrchion gwaed neu feinwe'r GIG

**Os yw'ch amgylchiadau yn wahanol i'r hyn sydd uchod, cysylltwch â Chynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru am arweiniad.**

Gan ddefnyddio'r ffurflen hon, gallwch chi wneud cais am daliadau HIV gan Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru

**Mae rhagor o fanylion ar gael ar ein gwefan:**

#### SUT I WNEUD CAIS

Dylech chi gwblhau pob rhan yn Adran 1 y ffurflen hon. Dylech chi roi'r ffurflen gyfan i weithiwr meddygol proffesiynol ar ôl hynny, a fydd yn cwblhau'r adrannau sy'n weddill. Wedyn mae'n rhaid i'r gweithiwr meddygol proffesiynol anfon y ffurflen sydd wedi ei chwblhau i Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru.

Yn gyffredinol, dylai'r gweithiwr meddygol proffesiynol fod y prif glinigydd sy'n eich trin. Mae'n debyg mai'r clinigydd sy'n eich trin am HIV fydd hwn, ond yn achos ymgeiswyr sydd ag anhwylderau gwaedu (megis haemoffilia), gall fod yn haematolegydd.

Os nad oes gennych chi glinigydd y gallwch chi'r rhoi'r ffurflen hon iddo, dylech chi ofyn i'ch Meddyg Teulu ei chwblhau.

Os oes gennych chi unrhyw gofnodion am sut y cawsoch chi eich heintio, rhowch gopiâu i'r gweithiwr meddygol proffesiynol a fydd yn cwblhau gweddill y ffurflen.

## BETH SY'N DIGWYDD NESAF

Ar ôl i'r gweithiwr meddygol proffesiynol gwblhau'r ffurflen, mae'n rhaid iddo/iddi ei hanfon, ynghyd â chopi o bob cofnod perthnasol, i Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru. A bwrw y bydd y wybodaeth a ddarparwyd yn cadarnhau'ch hawl i dderbyn taliad, cewch chi lythyr gan y Cynllun i gadarnhau hyn a bydd yn gofyn ichi ddarparu'ch manylion banc ac unrhyw brawf o'ch hunaniaeth sydd ei angen.

Dylech chi anfon y ffurflen sydd wedi ei chwblhau i:

Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru  
Canolfan Ganser Felindre  
Heol Felindre  
Yr Eglwys Newydd  
Caerdydd  
CF14 2TL

## CYMORTH GYDA'R FFURFLEN HON

Os bydd angen cymorth arnoch chi i gwblhau'r ffurflen hon, cysylltwch â Chynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru: